



Bwletin Awdurdod S4C
Cyfarfod 321 – 23 Ebrill 2009
S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2009.

1. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod 320

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 320.

2. Adroddiad y Cadeirydd

Esboniodd y Cadeirydd fod penodiad aelod newydd i'r Awdurdod bellach wedi ei gwblhau gan y DCMS. Mae Dyfrig Jones wedi ei benodi i'r Awdurdod am dymor o bedair blynedd.

Nododd y Cadeirydd ei fod ef a CE wedi mynychu tair cynhadledd wanwyn y pleidiau gwleidyddol, a byddant yn mynychu cynhadledd Llafur wythnos nesaf.

Nododd y byddai ef ac IJ yn cyfarfod gyda'r Gweinidog dros Dreftadaeth, Alun Ffred Jones AC, ddydd Iau.

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi gofyn am baratoi cofrestr rhoddion ar gyfer rhoddion a dderbynnir gan Aelodau'r Awdurdod yn rhinwedd eu swydd fel Aelodau. Cyflwynwyd canllawiau drafft gan esbonio mai pwrpas y canllawiau oedd cynorthwyo'r Aelodau i ddeall pa fathau o roddion, gyda pha werth ariannol, fyddai angen eu cofrestru. Bydd drafft pellach o'r canllawiau yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn dilyn trafodaethau gyda swyddogion.

3. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad.

Nododd IJ fod disgwyl i adroddiad terfynol Prydain Ddigidol gael ei gyhoeddi yn fuan.

Mae swyddogion yn dal i ddisgwyl am ragor o wybodaeth oddi wrth Ofcom parthed yr ail gais ar y cyd gyda Channel 4 am ofod ar Blethiad B.

Nododd fod y cynllun cyfathrebu digidol yn datblygu a bod cyfarfodydd cyson yn cael eu cynnal rhwng swyddogion a'r cwmnïau sydd wedi eu dewis i lunio'r ymgyrch ddigidol. Bydd cyflwyniad hefyd yn cael ei roi i'r Awdurdod.

Esboniodd bod S4C wedi ennill Gwobr Rhagoriaeth Mewn Gwasanaeth i Gwsmeriaid. Nododd y Cadeirydd bod cyfeiriadau positif iawn i waith S4C yn y ddogfen, a bod hyn yn adlewyrchiad o ymdrechion holl staff S4C.

Roedd rhagor o waith wedi ei wneud gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar y cynllun ariannol diwygiedig ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod maes o law.

4. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil
- Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg
- Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiadau Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad ar fonitro Ch1 o gynllun Corfforaethol 2009